**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWASANAETHAU CWSMERIAID)**

Cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2009 am 4.30 p.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr M Ll Davies, H H Evans, S Frobisher, P J Marfleet a P W Owen.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L. Jones) a Chlerc y Sir ynghyd ag Ian Jeffcott a John Hamilton (Ymgynghorwyr).

**457 PENODI CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd H H Evans fel Cadeirydd y Panel*

**458 EITEMAU BRYS**

Nid oedd eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriadol fel y diffiniwyd ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**459 PENODI PENNAETH GWASANAETHAU CWSMERIAID – RHESTR FER DERFYNOL**

Dywedodd ymgynghorwyr y Cyngor fod pum ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu. Rhoddodd yr ymgynghorwyr drosolwg o broses y Ganolfan Asesu a'r ymarferion a gynhaliwyd. Roedd yr ymgeiswyr wedi cwblhau proffil personoliaeth ar lein ac roedd yr ymgynghorwyr yn rhoi adborth iddyn nhw ar y diwrnod i ddilysu'r broses. Yn ystod y dydd, aseswyd yr ymgeiswyr dros ystod o ffactorau gan gynnwys ymarfer ysgrifenedig a rhyngweithio gydag aelodau'r Panel, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Ymatebodd yr ymgynghorwyr i gwestiynau gan yr aelodau am y broses a'r adborth ar bob ymgeisydd. Roedd yr aelodau'n trafod pob ymgeisydd yn ofalus ac yn dod i'r casgliad y dylai dau fynd ymlaen i'r cyfweliad terfynol o flaen y Panel.

***PENDERFYNWYD***

*(a)* *bod ymgeiswyr 3 a 4 yn mynd ymlaen i gyfweliad o flaen y Panel ar 4 Tachwedd 2009, y Panel i ail ymgynnull am 9.45 a.m. gyda'r ymgeisydd cyntaf yn cael cyfweliad am 10.00 a.m.*

*(b)* *y dylai'r ymgeiswyr roi cyflwyniad ar destun yn y cyfweliad terfynol a bod aelodau'r Panel yn gofyn cwestiynau iddyn nhw. Y Panel i benderfynu ar ddyraniad y cwestiynau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 p.m.

*******